

# Ffurflen Caniatâd Post Mortem Rhiant / Gwarcheidwad

Rhif y Claf



Diolch i chi am ddarllen y wybodaeth am gasglu a storio meinwe port mortem ar gyfer ymchwil i ganser. Os hoffech gymryd rhan, llythrennwyd y blychau isod os gwelwch yn dda.

1. Rwyf wedi darllen a deall y daflen wybodaeth post mortem i rieni / gwarcheidwaid (fersiwn 1a Mehefin 2023) ac wedi gallu gofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau hyn wedi eu hateb yn glir.
2. Rhoddaf ganiatâd i VIVO Biobank storio samplau fy mhlentyn. Byddant ond yn cael eu rhoi i brosiectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesebol i ymchwilio i atal, diagnosis a / neu drin canser.
3. Deallaf fod fy nghaniatâd yn wirfoddol a fy mod yn rhydd i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm a heb effeithio ar fy hawliau cyfreithiol. Bydd samplau a data'n cael eu dinistrio oni bai eu bod eisoes yn cael eu defnyddio mewn ymchwil.
4. Rhoddaf ganiatâd i wybodaeth am ddata clinigol fy mhlentyn yn eu nodiadau meddygol gael eu rhoi i VIVO Biobank a'u storio'n ddiogel yn eu databas i bwrpasau ymchwil. Deallaf y bydd VIVO Biobank yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob amser, wedi'i storio'n ddiogel yn unol â rheoliadau data. Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhoi i ymchwilwyr os yw'n diogelu manylion adnabod fy mhlentyn.
5. Deallaf y gall y wybodaeth wedi'i storio ar gofrestri iechyd cenedlaethol gael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth am salwch fy mhlentyn.
6. Rhoddaf ganiatâd i feinwe a data clinigol fy mhlentyn, a gasglwyd gan VIVO Biobank, gael ei gysylltu â data genomig wedi'i gynhyrchu a'i gadw gan NHS England / Genomics England a / neu labordai clinigol eraill.
7. Rhoddaf ganiatâd i ddeunydd genetig fy mhlentyn, e.e. DNA, gael ei brofi i bwrpas ymchwil.
8. Deallaf y gallai samplau a data fy mhlentyn gael eu hanfon at ymchwilwyr ar draws y byd, gan gynnwys gwledydd sydd heb gyfreithiau diogelu data tebyg i rai'r DU, ond na fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu a allai adnabod cleifion.
9. Deallaf na fyddaf yn cael gwybod canlyniadau unrhyw brosiectau ymchwil. Os yw ymchwil yn dangos canlyniadau a allai effeithio ar aelod o'r teulu, cytunaf y gellir eu pasio ymlaen i feddyg fy mhlentyn i drafod beth orau i'w wneud.
10. Deallaf na fyddaf yn elwa'n bersonol o roi samplau fy mhlentyn, gan gynnwys defnyddio samplau fy mhlentyn mewn ymchwil gan arwain at ddatblygu triniaeth neu brawf meddygol newydd.

## Dewisol

11. Rhoddaf ganiatâd i samplau a data fy mhlentyn gael eu defnyddio mewn ymchwil wedi'i gymeradwyo'n foesebol gydag anifeiliaid ac y gallai deunydd o samplau fy mhlentyn gael ei drosglwyddo i anifeiliaid. Dangoswch eich dewis drwy lythrennu un blwch.

Ydw

Nac ydw

Enw'r rhiant (PRIF LYTHRENNAU)

Llofnod

Dyddiad

Person yn derbyn y caniatâd (PRIF LYTHRENNAU)

Llofnod

Dyddiad

1 copi yn ffeil y safle, 1 copi i'r rhiant / gwarcheidwad / claf, 1 copi i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf.